Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 395

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cais Ffilmio Dragonfly TV: Channel 4 – Operation Scotney**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Hoffai Dragonfly TV wneud cyfres tair rhan ar gyfer Channel 4 yn ymdrin â gwaith Heddlu Dyfed-Powys wrth fynd i'r afael â thyfu canabis ar raddfa fawr – Operation Scotney. Mae ffermydd canabis wedi dod yn broblem fawr i heddluoedd ledled Prydain ac yn sbardun rhyfel gangiau, masnachu pobl a mathau eraill o droseddu a thrais. Ond ym Mhrydain, nid yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o faint y broblem a'i galw ar adnoddau'r heddlu.

Mae Dragonfly Film and Television yn un o gwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf sefydledig ac uchel ei barch y DU (www.dragonfly.tv). Maent yn arbenigo mewn cynhyrchu rhaglenni dogfen a rhaglenni ffeithiol sy'n ysgogi meddwl ac yn ddeallus ar gyfer pob darlledwr mawr yn y DU ac yn rhyngwladol, o'r BBC i Netflix. Mae gan Dragonfly TV hanes profedig o weithio gyda sefydliadau mawr yn y DU i gyflwyno rhaglenni deallus a diddorol y maent wedi derbyn llawer o wobrau ac anrhydeddau amdanynt, yn enwedig gwobrau BAFTA, gwobrau Griersons ac RTS. Maent yn ymfalchïo yn eu perthnasoedd rhagorol â'r sefydliadau y maent yn ffilmio gyda nhw, gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG, heddluoedd, cynghorau, yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, ymhlith llawer o sefydliadau eraill.

**Argymhelliad:** Bod y Comisiynydd yn cefnogi a derbyn y cais ffilmio gan Dragonfly TV i ffilmio cyfres 3 rhan ar gyfer Channel 4 yn dilyn gwaith Heddlu Dyfed-Powys ar Operation Sctoney.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad**: 17/06/2025